This is a bilingual document. The English part starts at page 16.

cyfrifiad
2021

Cyfrifiad 2021 – Cwestiynau y gall aelodau o'r cyhoedd eu gofyn i chi

Nod y canllaw hwn yw helpu staff awdurdodau lleol (ALl) i ymateb i unrhyw ymholiadau gan y cyhoedd ynghylch y cyfrifiad. Mae wedi'i anelu'n arbennig at staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd, fel eich tîm gwasanaethau cwsmeriaid.

Swyddfa Ystadegau Gwladol

www.cyfrifiad.gov.uk

LAGDB2B

Noder

Mae'r wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir ar adeg ei llunio. Os bydd datblygiadau sydd ynghlwm wrth y coronafeirws (COVID-19) neu amgylchiadau annisgwyl eraill yn ei gwneud yn ofynnol i ni newid ein dull o gynnal Cyfrifiad 2021, byddwn yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi fel y bo'n briodol.

Rydym wrthi'n llunio cynlluniau manwl i asesu'r risgiau sydd ynghlwm wrth COVID-19, ac rydym yn datblygu mesurau wrth gefn cadarn a phriodol. Bydd y rhain yn diogelu pawb dan sylw ac yn sicrhau bod y cyfrifiad yn rhedeg yn esmwyth. Byddwn yn rhannu'r rhain â chi ar yr adegau perthnasol ac yn eu rhoi ar waith pan fo angen.

Cwestiynau y gallai pobl eu gofyn i chi

Diben y cwestiynau canlynol yw helpu staff awdurdodau lleol i ateb unrhyw ymholiadau a all fod gan aelodau o'r cyhoedd am Gyfrifiad 2021. Mae'r ymatebion wedi'u hysgrifennu fel ymatebion uniongyrchol i aelodau o'r cyhoedd er mwyn cynnig gwybodaeth glir a chryno sy'n berthnasol iddynt. Gall eich staff sy'n ymdrin â'r cyhoedd ddefnyddio'r ymatebion hyn i lywio eu hatebion i unrhyw gwestiynau maent yn eu cael yn ogystal â chyfeirio unigolion at gymorth pellach.

Beth yw'r cyfrifiad? 4

Ble galla i gael rhagor o wybodaeth am y cyfrifiad? 5

Pam y dylwn i gymryd rhan yn y cyfrifiad? 6

Pwy ddylai lenwi holiadur y cyfrifiad? 7

Beth sydd angen i mi ei wneud gyda holiadur y cyfrifiad? 8

Pwy ydw i'n ei gynnwys yn holiadur y cyfrifiad? 9

Beth os ydw i'n cael trafferth mynd ar lein i gwblhau'r cyfrifiad? 10

Rwyf wedi colli fy llythyr am y cyfrifiad. Sut ydw i'n cael cod mynediad newydd? 10

Ble galla i gael help gyda chyfieithiadau i iaith arall ar gyfer y cyfrifiad? 11

A fydd rhywun yn ymweld â fy nghartref yn ystod Cyfrifiad 2021? 11

Sut bydda i'n gwybod bod fy nata yn ddiogel gyda'r cyfrifiad? 12

Ble galla i gael mwy o help neu gyngor ynghylch y cyfrifiad? 13

Pryd mae angen i mi lenwi holiadur y cyfrifiad? 13

Alla i lenwi holiadur y cyfrifiad ar ran rhywun arall sydd angen help? 13

Y ganolfan gyswllt 14

Beth yw'r cyfrifiad?

Arolwg unigryw o bob unigolyn a chartref yng Nghymru a Lloegr yw'r cyfrifiad, sy'n digwydd bob 10 mlynedd. Nid oes unrhyw beth arall sy'n rhoi cymaint o fanylion amdanom ni a'r gymdeithas rydym yn byw ynddi. Mae'n dweud wrthym beth sydd ei angen arnom ni nawr a beth sy'n debygol o fod ei angen arnom ni yn y dyfodol. Mae hefyd yn cynnig cipolwg ar ein ffordd o fyw, i genedlaethau'r dyfodol edrych yn ôl arno.

Mae'r wybodaeth a roddir gan y cyhoedd yn ystod y cyfrifiad yn helpu awdurdodau lleol i gynllunio ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n llywio'r broses o benderfynu sut y caiff biliynau o bunnoedd eu gwario, er enghraifft ar bethau fel ffyrdd, ysgolion ac ysbytai.

Mae gwybodaeth o'r cyfrifiad hefyd yn bwysig wrth helpu llawer o bobl a sefydliadau eraill i wneud eu gwaith. Bydd sefydliadau elusennol a rhai gwirfoddol yn defnyddio'r wybodaeth yn aml fel tystiolaeth i gael cyllid. Bydd yn helpu busnesau i'n deall ni fel cwsmeriaid ac, er enghraifft, i benderfynu ble i agor siopau newydd. Hefyd, bydd y rhai sy'n gwneud ymchwil, fel myfyrwyr prifysgol a phobl sy'n hel achau, yn defnyddio'r wybodaeth.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n cynllunio ac yn cynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr, gan weithio gydag asiantaethau ystadegol eraill i greu darlun clir o'r Deyrnas Unedig. Rydym ni'n adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Deyrnas Unedig, ond nid ydym ni'n gweithio i unrhyw bleidiau gwleidyddol.

Ewch i'r wefan yn **www.cyfrifiad.gov.uk** i ddysgu mwy am Gyfrifiad 2021.

Ble galla i gael rhagor o wybodaeth am y cyfrifiad?

Ewch i wefan Cyfrifiad 2021 yn **www.cyfrifiad.gov.uk** i ddysgu popeth am y cyfrifiad. Pan ddaw'r amser i chi gwblhau eich cyfrifiad, bydd SYG yn ychwanegu dolen at dudalen flaen y wefan a gallwch ddilyn hon i lenwi holiadur y cyfrifiad ar lein. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys ein hadran help ar-lein sy'n cwmpasu popeth o bwy i'w gynnwys ar yr holiadur i sut i ateb pob cwestiwn.

Os na allwch chi ddod o hyd i'r hyn rydych chi'n chwilio amdano, mae canolfan gyswllt benodedig hefyd lle rydym ni wrth law i helpu.

Gallwch gysylltu â SYG dros y ffôn neu drwy sgwrs ar y we, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol neu neges destun. Ewch i wefan Cyfrifiad 2021 yn **www.cyfrifiad.gov.uk** i ddod o hyd i'n manylion cyswllt.

Pam y dylwn i gymryd rhan yn y cyfrifiad?

Mae'n bwysig iawn eich bod chi'n cymryd rhan yn y cyfrifiad. Drwy gymryd rhan, byddwch chi'n helpu i wneud yn siŵr eich bod chi a'ch cymuned yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth a roddir gan y cyhoedd yn ystod y cyfrifiad yn llywio ble y caiff biliynau o bunnoedd eu gwario, er enghraifft ar bethau fel ffyrdd, ysgolion ac ysbytai. Mae gwybodaeth o'r cyfrifiad hefyd yn bwysig wrth helpu llawer o bobl a sefydliadau eraill i wneud eu gwaith.

Bydd sefydliadau elusennol a rhai gwirfoddol yn defnyddio'r wybodaeth yn aml fel tystiolaeth i gael cyllid. Bydd yn helpu busnesau i'n deall ni fel cwsmeriaid ac, er enghraifft, i benderfynu ble i agor siopau newydd. Hefyd, bydd y rhai sy'n gwneud ymchwil, fel myfyrwyr prifysgol a phobl sy'n hel achau, yn defnyddio'r wybodaeth. Heb y cyfrifiad, byddai'n llawer anoddach gwneud hyn.

Yn ogystal, os ydych chi'n byw yng Nghymru neu Loegr, rhaid i chi lenwi ffurflen y cyfrifiad yn ôl y gyfraith, neu gallech chi gael dirwy o hyd at £1,000.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael mwy o wybodaeth am pam y mae'n rhaid i chi lenwi holiadur y cyfrifiad.

Pwy ddylai lenwi holiadur y cyfrifiad?

Dylai deiliad y cartref lenwi ffurflen y cyfrifiad ar gyfer y cartref.

Dyma'r person sy'n berchen ar yr eiddo neu'n ei rentu (neu sy'n berchen arno ar y cyd neu'n ei rentu ar y cyd), neu'r person sy'n gyfrifol (neu sy'n gyfrifol ar y cyd) am dalu biliau a threuliau'r cartref.

Os mai chi yw deiliad y cartref, bydd angen i chi ateb ychydig o gwestiynau am eich cartref cyn symud ymlaen i gwestiynau am bob unigolyn. Gall unrhyw un sy'n byw yn y cartref lenwi'r cwestiynau hyn ar ei ben ei hun os yw'n dymuno gwneud hynny. Gallwch hefyd gadw'r cyfrifiad a dod yn ôl i'w orffen yn nes ymlaen.

Yn ogystal, gall unrhyw un mewn cartref sydd am gadw ei wybodaeth yn breifat lenwi holiadur i unigolion. Gall wneud cais am god mynediad unigol ar lein neu drwy'r ganolfan gyswllt.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael mwy o wybodaeth am bwy sy'n gyfrifol am lenwi holiadur y cyfrifiad a chyfarwyddiadau ar sut i lenwi holiadur i unigolion.

Beth sydd angen i mi ei wneud gyda holiadur y cyfrifiad?

Mae Cyfrifiad 2021 yn gyfrifiad digidol yn gyntaf. Os cawsoch chi lythyr drwy'r post a oedd yn cynnwys cod mynediad 16 digid, gallwch ddefnyddio'r cod hwn i fewngofnodi ar wefan Cyfrifiad 2021.

Bydd angen i chi ateb ychydig o gwestiynau am eich cartref cyn symud ymlaen i gwestiynau am bob unigolyn. Gall unrhyw un sy'n byw yn y cartref lenwi'r cwestiynau hyn ar ei ben ei hun os yw'n dymuno gwneud hynny. Gallwch hefyd gadw'r holiadur a dod yn ôl i'w orffen yn nes ymlaen.

Mae angen i'r wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi sôn am bwy sy'n byw yn y cartref fel arfer ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, sef dydd Sul 21 Mawrth 2021. Gallwch gyflwyno eich holiadur ar Ddiwrnod y Cyfrifiad neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Gallwch lenwi eich holiadur cyn 21 Mawrth os bydd angen i chi wneud hynny. Os bydd amgylchiadau eich cartref yn newid ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, gallwch chi roi gwybod i SYG.

Yn ogystal, gall unrhyw un mewn cartref sydd am gadw ei wybodaeth yn breifat lenwi holiadur i unigolion. Gall wneud cais am god mynediad unigol ar lein neu drwy'r ganolfan gyswllt.

Bydd help ar gael yng Nghanolfannau Cymorth y Cyfrifiad i lenwi eich holiadur. Gallwch ofyn am fersiwn bapur os yw'n well gennych chi a'i dychwelyd drwy ddefnyddio'r amlen a ddarperir. Ewch i wefan Cyfrifiad 2021 yn **www.cyfrifiad.gov.uk** i ofyn am un. Mae cymorth ar gael mewn ieithoedd gwahanol a fformatau hygyrch hefyd.

Pwy ydw i'n ei gynnwys yn holiadur y cyfrifiad?

Dylech ateb y cwestiynau i unigolion yn Holiadur y Cartref ar gyfer:

- unrhyw un sy'n byw gyda chi'n barhaol neu sy'n ystyried eich cyfeiriad fel cartref y teulu
- pobl sydd i ffwrdd o'r cartref dros dro, er enghraifft myfyrwyr neu blant sy'n byw mewn ysgol breswyl
- pobl sy'n aros gyda chi dros dro os ydynt yn byw yn y Deyrnas Unedig ac nad oes ganddynt gyfeiriad arall
- pobl sy'n aros gyda chi dros dro o'r tu allan i'r Deyrnas Unedig sy'n aros yn y wlad am 3 mis neu fwy

Mae adran ar wahân i'w llenwi ar gyfer ymwelwyr hefyd – os byddant yn aros gyda chi dros nos ar Ddiwrnod y Cyfrifiad: dydd Sul 21 Mawrth 2021.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael mwy o fanylion ynghylch pwy y dylech ei gynnwys ar yr holiadur.

Beth os ydw i'n cael trafferth mynd ar lein i gwblhau'r cyfrifiad?

Mae Cyfrifiad 2021 yn gyfrifiad digidol yn gyntaf, a hoffem eich helpu chi i gymryd rhan ar lein. Os nad ydych chi'n hyderus ar lein, neu os nad oes gennych chi gyfrifiadur, ffôn clyfar na llechen, gallwch fynd i un o'n Canolfannau Cymorth y Cyfrifiad lleol. Gallwch gael help yno i lenwi'r holiadur ar-lein. Os oes gennych chi eich gliniadur, ffôn clyfar neu lechen eich hun, gallwch ddod â nhw gyda chi neu ddefnyddio un o'r dyfeisiau yn y ganolfan.

Fel arall, os na allwch chi lenwi'r holiadur ar lein, gallwch ofyn am fersiwn bapur.

Rwyf wedi colli fy llythyr am y cyfrifiad. Sut ydw i'n cael cod mynediad newydd?

Gallwch ofyn am god mynediad newydd i ddechrau cyfrifiad newydd os ydych chi wedi colli eich cod mynediad neu heb gael un. Ewch i wefan Cyfrifiad 2021 yn **www.cyfrifiad.gov.uk** a gallwch ddewis cael eich cod mynediad newydd drwy'r post neu neges destun.

Ble galla i gael help gyda chyfieithiadau i iaith arall ar gyfer y cyfrifiad?

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn cynnig cymorth ac arweiniad mewn amrywiaeth o ieithoedd gwahanol. Os oes angen help arnoch chi mewn iaith heblaw am y Gymraeg neu'r Saesneg, gallwch ffonio'r llinell gymorth iaith.

A fydd rhywun yn ymweld â fy nghartref yn ystod Cyfrifiad 2021?

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) sy'n gyfrifol am gynnal y cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod pawb yn aros yn ddiogel wrth gymryd rhan.

Bydd y cyfrifiad hwn yn un digidol yn gyntaf a byddwn yn annog pobl i ymateb ar lein os oes modd. Drwy gydol y pandemig, rydym wedi gweld faint o gartrefi a gwasanaethau sydd wedi newid i fod ar lein yn unig yn llwyddiannus, a byddwn yn annog pobl i ymateb ar lein os gallant wneud hynny.

Bydd gwaith maes y cyfrifiad, lle ymwelir â phobl nad ydynt wedi llenwi eu holiadur eto ac a all fod angen help, yn cael ei wneud heb fod angen i neb fynd i mewn i gartref rhywun. Cedwir pellter cymdeithasol a bydd ein staff maes yn gwisgo cyfarpar diogelu personol gan ddilyn canllawiau'r llywodraeth.

Bydd SYG yn dilyn canllawiau diogelwch y llywodraeth ar gyfer y coronafeirws (COVID-19) drwy gydol cyfnod y cyfrifiad.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael mwy o wybodaeth am weithrediadau ein staff maes yn ystod Cyfrifiad 2021.

Sut bydda i'n gwybod bod fy nata yn ddiogel gyda'r cyfrifiad?

Mae'r cyfrifiad yn gofyn cwestiynau amdanoch chi, eich cartref a'r bobl sy'n byw ynddo. Mae'r cyfrifiad wedi bod yn cadw'r wybodaeth bersonol hon yn ddiogel am 200 mlynedd.

Yn y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG), mae gennym ni system ddiogelwch lem sy'n dilyn safonau'r llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys mesurau diogelwch ffisegol a TG i ddiogelu eich data, sy'n cwmpasu pobl, prosesau a thechnoleg.

Pan fydd SYG yn cyhoeddi ystadegau o'r cyfrifiad, maen nhw'n gwbl ddienw. Nid ydym yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol ac ni ellir eich adnabod drwy ddata'r cyfrifiad. Caiff eich gwybodaeth bersonol yn y cyfrifiad ei diogelu gan y gyfraith. Mae'n drosedd i unrhyw un ei rhannu.

Nid yw adrannau'r llywodraeth sy'n ymdrin ag unrhyw geisiadau rydych chi wedi'u gwneud, nac unrhyw daliadau neu wasanaethau rydych chi'n eu cael, yn gallu gweld eich gwybodaeth o'r cyfrifiad. Er enghraifft, ni ellir ei defnyddio i ddylanwadu ar hawliadau budd-daliadau, cais i breswylio, statws mewnfudo na threthi. Ni fydd sefydliadau preifat nac unigolion fel landlordiaid yn gallu cael gafael ar eich gwybodaeth bersonol.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael mwy o wybodaeth am sut mae SYG yn cadw eich gwybodaeth bersonol yn ddiogel.

Ble galla i gael mwy o help neu gyngor ynghylch y cyfrifiad?

Gallwch fynd i'r wefan yn **www.cyfrifiad.gov.uk** i ddysgu mwy am Gyfrifiad 2021. Gallwch gysylltu â ni dros y ffôn neu drwy sgwrs ar y we, e-bost, y cyfryngau cymdeithasol neu neges destun hefyd.

Pryd mae angen i mi lenwi holiadur y cyfrifiad?

Mae Cyfrifiad 2021 yn gofyn yr un cwestiynau i bawb yng Nghymru a Lloegr am yr un diwrnod: Diwrnod y Cyfrifiad, sef dydd Sul 21 Mawrth 2021.

Mae angen i'r wybodaeth y byddwch chi'n ei rhoi sôn am bwy sy'n byw yn y cartref fel arfer ar Ddiwrnod y Cyfrifiad. Gallwch gyflwyno eich holiadur ar Ddiwrnod y Cyfrifiad neu cyn gynted â phosibl ar ôl hynny. Gallwch lenwi eich holiadur cyn 21 Mawrth os bydd angen i chi wneud hynny. Os bydd amgylchiadau eich cartref yn newid ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, gallwch chi roi gwybod i ni.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael mwy o wybodaeth ynghylch pryd i lenwi holiadur y cyfrifiad.

Alla i lenwi holiadur y cyfrifiad ar ran rhywun arall sydd angen help?

Gallwch, cewch gwblhau cyfrifiad ar ran rhywun sydd wedi gofyn am help. Bydd gan y person rydych chi'n ei helpu lythyr neu holiadur papur. Mae'r ddau yn cynnwys cod mynediad, felly gallwch chi gwblhau'r cyfrifiad ar lein hyd yn oed os oes gan yr unigolyn fersiwn bapur.

Os yw'n bosibl, darllenwch y cwestiynau'n uchel iddo a llenwch yr holiadur gyda'r atebion mae'n eu rhoi i chi.

Sicrhewch eich bod yn gadael digon o amser i wneud hyn. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) yn argymell eich bod yn darllen yr atebion yn ôl iddo, fel y gall gadarnhau eu bod yn gywir.

Os mai chi yw gofalwr yr unigolyn hwn neu os oes gennych chi atwrneiaeth arhosol, mae gennych chi gyfrifoldeb i weithredu er ei fudd pennaf o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Yn SYG, rydym ni o'r farn bod cwblhau'r cyfrifiad ar ran yr unigolyn os nad yw'n gallu gwneud hynny ei hun er ei fudd pennaf.

Ewch i **adran help ar-lein y cyfrifiad** i gael canllawiau pellach ar gwblhau cyfrifiad ar ran rhywun nad oes ganddo'r galluedd i wneud hynny, yn ogystal â gwybodaeth ychwanegol am helpu rhywun arall i lenwi holiadur y cyfrifiad.

Y ganolfan gyswllt

Mae'r ganolfan gyswllt yn ffynhonnell cymorth gyhoeddus hanfodol. Gall gynnig help dros y ffôn, drwy we-sgwrs a neges destun, a thrwy'r ffurflen '**Cysylltu â Ni**' ar ein gwefan.

Bydd y ganolfan gyswllt yn weithredol o 1 Mawrth 2021. Bydd llinellau ar wahân ar gyfer Cymru a Lloegr, yn ogystal â llinell gymorth iaith, gwasanaeth text relay a rhifau negeseuon testun byr.

Canolfan gyswllt ar gyfer y rhai sy'n byw yng Nghymru **0800 169 2021**

NGT Cymru (gwasanaeth text relay) **(18001) 0800 169 2021**

Llinell gymorth iaith **0800 587 2021**

Mae'r ganolfan gyswllt yn y Deyrnas Unedig a gellir ei ffonio am ddim.

Gall unigolion eu hunain ddefnyddio'r ganolfan gyswllt, neu gall aelod o'r teulu neu ffrind maent yn ymddiried ynddo ei defnyddio ar eu rhan. Mae hyn yn cynnwys cysylltiadau yn y gymuned sy'n cynnig helpu. Gall staff maes SYG hefyd ffonio ar ran rhywun os bydd angen.

Gall y ganolfan gyswllt helpu gyda llawer o dasgau, gan gynnwys:

- ymateb i ymholiadau cyffredinol ac arbenigol gan y cyhoedd
- darparu holiaduron, llythyrau a thaflenni newydd neu rai ychwanegol, fel holiaduron papur y cartref, holiaduron papur i unigolion, ffurflenni parhad y cartref a holiaduron print mawr
- darparu llyfrynnau wedi'u cyfieithu i ieithoedd gwahanol, llyfrynnau canllaw Braille a thaflenni hawdd eu deall
- gwasanaethau cyfieithu
- helpu unigolion i gwblhau'r cyfrifiad dros y ffôn. Gellir gwneud hyn yn syth pan fydd yr unioglyn yn ffonio, neu'n ddiweddarach drwy drefnu apwyntiad

Bydd y ganolfan gyswllt yn agor ar 1 Mawrth 2021. Yr oriau agor fydd:

- Rhwng 8am ac 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener
- Rhwng 8am ac 1pm ar ddydd Sadwrn
- Rhwng 8am ac 8pm ddydd Sadwrn a dydd Sul penwythnos y cyfrifiad (20 ac 21 Mawrth 2021)

Caiff system apwyntiadau ei defnyddio ar gyfer galwadau hirach yn ystod oriau brig.

Bydd y llinellau'n cau i'r cyhoedd ar 8 Gorffennaf 2021.

census 2021

Census 2021 – Questions members of the public may ask you

This guide is to help local authority (LA) staff respond to any queries from the public about the census. It's particularly aimed at public-facing staff, such as your customer service team.

Please note

The information in this document is correct at the time of writing. Should developments related to the coronavirus (COVID-19) or other unforeseen circumstances require us to change our approach to Census 2021, we will endeavour to update you as they occur.

We're creating detailed plans to assess risks related to COVID-19 and developing robust and appropriate contingency measures. These will ensure the safety of all involved and make sure that the census runs smoothly. We will share these with you at the relevant times and implement them when required.

Questions you might get asked

The following questions are provided to help local authority staff answer any queries that members of the public may have about Census 2021. The responses are written as direct replies to the public in order to offer clear and concise information that's relevant to them. Your public-facing staff can use these replies to inform their answers to any questions they get as well as direct individuals to further support.

What is the census? 19

Where can I find out more about the census? 20

Why should I take part in the census? 21

Who should fill in the census? 22

What do I need to do with the census questionnaire? 23

Who do I include in the census questionnaire? 24

What if I'm having trouble getting online to complete the census? 25

I've lost my census letter. How do I get a new access code? 25

Where can I get help with translations into another language for the census? 26

Will someone visit my home during Census 2021? 26

How will I know my data is safe with the census? 27

Where can I get more help or advice about the census? 28

When do I need to fill in my census? 28

Can I fill in the census for someone else who needs help? 28

The contact centre 29

What is the census?

The census is a unique survey of all the people and households in England and Wales that happens every 10 years. There's simply nothing else that gives so much detail about us and the society we live in. It tells us what our needs are now and what they're likely to be in the future. It also gives a snapshot of how we live, for future generations to look back on.

The information given by the public during the census helps local authorities plan and fund public services. It informs where billions of pounds are spent, for instance on things like roads, schools and hospitals.

Information from the census is also important in helping lots of other people and organisations do their work. Charity and voluntary organisations often use it as evidence to get funding. It helps businesses to understand us as customers and, for example, decide where to open new shops. Plus, those doing research, like university students and people looking into their family history, use the information.

The Office for National Statistics (ONS) plans and runs the census in England and Wales, working with other statistical agencies to create a clear picture of the UK. We report directly to the UK parliament, but we do not work for any political parties.

Visit the census website at **www.census.gov.uk** to find out more about Census 2021.

Where can I find out more about the census?

You can visit the Census 2021 website at **www.census.gov.uk** where you will find out all about the census. When it's time to complete your census, the ONS will add a link on the front page of the website that you can use to fill in your census questionnaire online. The website also contains our online help section, which covers everything from who to include on the questionnaire, to how to answer each question.

If you cannot find what you're looking for, there is also a dedicated contact centre where we're on hand to help. You can get in touch with the ONS by phone, webchat, email, social media or text message. You can visit the Census 2021 website at **www.census.gov.uk** to find details of how to contact us.

Why should I take part in the census?

It's really important that you take part in the census. By taking part, you will help make sure you and your community get the services needed now and in the future.

The information given by the public during the census informs where billions of pounds are spent, for instance on things like roads, schools and hospitals. Information from the census is also important in helping lots of other people and organisations do their work.

Charity and voluntary organisations often use it as evidence to get funding. It helps businesses to understand us as customers and, for example, decide where to open new shops. Plus, those doing research, like university students and people looking into their family history, use the information. Without the census, it would be much more difficult to do this.

In addition, if you live in England and Wales, you must fill in the census form by law or you could be fined up to £1,000.

Visit **census online help** for more information about why you must fill in your census questionnaire.

Who should fill in the census?

The householder should fill in the census for the household.

This is the person who owns or rents (or jointly owns or rents) the property, or the person who is responsible (or jointly responsible) for paying household bills and expenses.

If you're the householder, you will have to answer a few questions about your household before moving on to questions about each individual. Anyone living in the household can fill in these questions on their own if they want to. You can also save the census and come back to finish it off later.

In addition, anyone included in a household who wants to keep their information private can complete an individual questionnaire. They can request an individual access code online or through the contact centre.

Visit **census online help** for more information about who is responsible for filling in the census and instructions on how to complete an individual questionnaire.

What do I need to do with the census questionnaire?

Census 2021 is a digital-first census. If you got a letter in the post with a 16-digit access code on it, you can use this code to log in on the Census 2021 website.

You will have to answer a few questions about your household before moving on to questions about each individual. Anyone living in the household can fill in these questions on their own if they want to. You can also save the questionnaire and come back to finish it off later.

The information you provide needs to be about who usually lives in the household on Census Day, which is Sunday 21 March 2021. You can submit your questionnaire on Census Day or as soon as possible after. If you need to, you can complete your questionnaire before 21 March. If your household circumstances change on Census Day, you can let the ONS know.

In addition, anyone included in a household who wants to keep their information private can complete an individual questionnaire. They can request an individual access code online or through the contact centre.

There will be help available at our Census Support Centres to fill in your questionnaire. You can request a paper version if you prefer and return it using the envelope provided. You can visit the Census 2021 website at **www.census.gov.uk** to request one. There's also support available in different languages and accessible formats.

Who do I include in the census questionnaire?

You should answer the individual questions in the Household Questionnaire for:

- anyone who lives with you permanently or counts your address as their family home
- people temporarily away from home, for example students or schoolchildren boarding away
- people staying with you temporarily if they live in the UK and have no other address
- people staying with you temporarily from outside of the UK who are staying in the country for three months or more

There's also a separate section to fill in on visitors – that is anyone staying with you overnight on Census Day: Sunday 21 March 2021.

Visit **census online help** for more details about who should be included in the questionnaire.

What if I'm having trouble getting online to complete the census?

Census 2021 is a digital-first census, and we'd like to help you take part online. If you're not confident online, or do not have a computer, smartphone or tablet, you can go to a local Census Support Centre. There you can get help to fill in the online questionnaire. If you have your own laptop, smartphone or tablet, you can bring them along or use one of the devices at the centre.

Alternatively, if you cannot fill in the questionnaire online, you can ask for a paper version.

I've lost my census letter. How do I get a new access code?

You can request a new access code to start a new census if you have lost or not received an access code. Visit the Census 2021 website at **www.census.gov.uk** and choose to receive your new access code by post or text.

Where can I get help with translations into another language for the census?

The Office for National Statistics (ONS) is offering support and guidance in a range of different languages. If you need help in a language other than English and Welsh, you can call the language helpline.

Will someone visit my home during Census 2021?

The Office for National Statistics (ONS) is responsible for running the census in England and Wales. We are committed to ensuring that everyone is kept safe as they take part.

This will be a digital-first census and we will be encouraging people to respond online if they can. We have seen through the pandemic how many households and services have successfully switched to online only and we will be encouraging people to respond online if they can.

The census field operation, which follows up with people who haven't yet completed their questionnaire and may need help, will be carried out without anyone ever needing to enter anyone's home. All contacts with the public will be socially distanced and our field staff will be equipped with PPE in line with government guidance.

The ONS will be following the government's safety guidelines about the coronavirus (COVID-19) throughout the census period.

Visit **census online help** for more information about our field staff operations during Census 2021.

How will I know my data is safe with the census?

The census asks questions about you, your home and the people who live in it. The census has a proud 200-year history of keeping this personal information safe.

At the Office for National Statistics (ONS), we have a strict security regime that follows government standards. This includes physical and IT security measures to protect your data, covering people, processes and technology.

When the ONS publishes statistics from the census, they're completely anonymous. We do not include any personal information and you cannot be identified via census data. Your personal census information is protected by law. It is a crime for anyone to share it.

Government departments dealing with any applications you've made, or any payments or services you receive, cannot see your census information. For example, it cannot be used to influence benefit claims, a residency application, immigration status or taxes. Private organisations and individuals such as landlords will not have access to your personal information.

Visit **census online help** for more information about how the ONS keep your personal information safe.

Where can I get more help or advice about the census?

You can visit the census website at **www.census.gov.uk** to find out more about Census 2021. You can also get in touch with us by webchat, email, social media or text message.

When do I need to fill in my census?

Census 2021 asks everyone in England and Wales the same questions about the same day: Census Day, Sunday 21 March 2021.

The information you provide needs to be about who usually lives in the household on Census Day. You can submit your questionnaire on Census Day or as soon as possible after. If you need to, you can complete your questionnaire before 21 March. If your household circumstances change on Census Day, you can let us know.

Visit **census online help** for more information about when to fill in your census questionnaire.

Can I fill in the census for someone else who needs help?

Yes, you're allowed to complete a census for someone who's asked for help. The person you're helping will have a letter or a paper questionnaire. Both contain an access code, so you can complete online even if they have a paper version.

If possible, read the questions aloud to them and complete the questionnaire with the answers they give you. Allow plenty of time. The Office for National Statistics (ONS) recommends that you read back the answers to them, so they can check they're right.

If you're this person's carer or you have lasting power of attorney, you have a responsibility to act in their best interest under the Mental Capacity Act 2005. At the ONS, we consider it to be in the person's best interests for you to complete the census for them if they can't do it for themselves.

You can visit **census online help** for further guidance on completing a census for someone who lacks the capacity to do it as well as additional information about helping someone else fill in their census.

The contact centre

The contact centre is a vital source of public support. It offers help over the phone, via webchat and SMS text message, and through the '**Contact Us**' form on our website.

The contact centre goes live on 1 March 2021. There will be separate lines for England and Wales, plus a language helpline, text relay and short text numbers.

Contact centre for those living in Wales 0800 169 2021

Wales NGT (text relay service) (18001) 0800 169 2021

Language helpline 0800 587 2021

The contact centre is UK-based and free to call.

The contact centre can be used by individuals themselves, or by a trusted family member or friend on their behalf. This includes community contacts who are offering help. Field staff from the ONS can also call on behalf of someone if needed.

The contact centre can help with many tasks, including:

- resolving general and specialist queries from the public
- providing new or additional questionnaires, letters and leaflets, such as household paper questionnaires, individual paper questionnaire, household continuation forms and large print questionnaires
- providing language translation booklets, braille guidance booklets and easy read leaflets
- interpretation services
- assisting individuals to complete the census over the telephone. This can be done straight away when the individual calls, or at a later date via an appointment

The contact centre opens on 1 March 2021. The hours of opening are:

- 8am – 8pm Monday to Friday
- 8am – 1pm Saturdays
- 8am – 8pm on Saturday and Sunday on Census weekend (20 and 21 March 2021)

An appointment system will be used for lengthier calls during peak times.

Lines close to the public on 8 July 2021.